YSGOL LLANFYLLIN

Hydref 20ain 2021

Annwyl Riant/Ofalwr,

Cyf: Prosiect Cyfleoedd Ehangach - Gwersi Offerynnol am Ddim

Eleni rydym yn ffodus ein bod yn gallu cynnig prosiect cerddorol anhygoel i bob disgybl ym mlynyddoedd 3-6. Bydd y Prosiect Cyfleoedd Ehangach yn canolbwyntio ar brosiect offeryn pres lle y bydd yr holl ddisgyblion yn derbyn hyfforddiant grŵp wythnosol ar offeryn pres. Y nod yw nid yn unig dysgu sut i chwarae offeryn pres ond hefyd ffurfio band pres bach. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain yn y pen draw at ffurfio band mwy gyda disgyblion o'r ysgol gyfan.

Beth fydd y gost?
Ni fydd unrhyw gost i rieni/ofalwyr. Mae'r ysgol yn talu'r holl gostau yn cynnwys hyfforddiant a phrynu offerynnau.

Ar gyfer pwy mae'r prosiect?
Holl ddisgyblion blynyddoedd 3 – 6.

Beth yw'r manteision?
Gwnaed llawer iawn o ymchwil yn edrych ar fuddion disgyblion yn dysgu offeryn cerdd. Yn gyffredinol, mae'r buddion hyn yn cynnwys; mwy o allu gwybyddol; gwell hyder, amynedd a gwytnwch; mwy o gof a chreadigrwydd ac mae'n ffordd wych o leddfu straen.

Pryd fydd hyn yn digwydd?
Bydd gwers dosbarth eich mab/merch yn cymryd lle unwaith yr wythnos am 25 munud a bydd yn rhan o'u hamser cwricwlwm cerdd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, peidiwch oedi cyn cysylltu a Mr.Jenkins drwy e bost ar: gj@llanfylllin.powys.sch.uk

Cofion Cynnes,

Mr. G. Jenkins
Rheolwr Cynnydd ac Athro Cerdd

Cysylltwch / Contact

Llanfyllin, Powys SY22 5BJ
Ffôn / Telephone: (01691) 648391
office@llanfyllin.powys.sch.uk
www.llanfyllin.powys.sch.uk

Tîm Arweinyddiaeth / Leadership Team

Pennaeth / Headteacher:
Mr Dewi Owen
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mr Llŷr Thomas

Penaethiaid Cynorthwyol / Assistant Headteachers

Mr Huw Lloyd-Jones
Mrs Ann Roberts
Mrs Sioned Vaughan

Rheolwr Busnes/Business Manager
Mrs Sarah Hunter

CADY/ALNCO
Mrs Rhiannon Molyneux